CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

CYFADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - TÎM COMISIYNU

ADRODDIAD MONITRO CONTRACT

Enw/Cyfeiriad y Darparwr:	Mirus-Wales, Adeilad Melin Homes, Tŷ'r Efail, Lower Mill Road, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ.
Dyddiad yr Ymweliad:	Dydd Gwener 13 Medi 2019, 9.30am - 12.00pm (ymweliad swyddfa)
Swyddog yn Ymweld:	Andrea Crahart, Swyddog Monitro Contractau, CBSC
Yn Bresennol:	Chris Paul, Unigolyn Cyfrifol Nicola Sullivan, Rheolwr Rhanbarthol Kim Ayoub, Rheolwr Tîm

1. Cefndir

1.1 Cynhaliwyd yr ymweliad â swyddfa Mirus-Wales er mwyn gweld gwybodaeth a gedwir yn y swyddfa mewn perthynas â ffeiliau staff, hyfforddiant, goruchwylio/arfarnu, gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol, cwynion/canmoliaeth. Cwblhawyd Offeryn Monitro Byw â Chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili at ddibenion casglu gwybodaeth yn ystod yr ymweliad monitro.

1.2 Mae Mirus-Wales yn darparu cymorth arbenigol i oedolion o bob oed ag anableddau. Mae un maes gwasanaeth yn cynnwys 'byw â chymorth a rennir', lle mae staff yn cynorthwyo nifer fach o bobl mewn eiddo ac sydd â'u cytundebau tenantiaeth eu hunain. Mae'r darparwr hwn yn dewis staff yn ofalus i gynorthwyo pobl, ac mae pobl yn cael cymorth gyda rhai meysydd fel rheoli'r cartref, cyllid, sgiliau/annibyniaeth a chyfranogi yn y gymuned.

1.3 Mae'r landlord a'r darparwr cymorth ar wahân yn gontractiol. Mirus-Wales yw'r darparwr cymorth, a Cymdeithas Tai Unedig Cymru yw'r landlord, ac felly maent yn gyfrifol am yr holl waith cynnal a chadw/atgyweirio yn yr eiddo.

1.4 Ar hyn o bryd, mae tri pherson yn byw yn yr eiddo yn Nelson ac mae dau berson yn byw yn yr eiddo yn Nhir-y-berth, sydd ag 1 swydd wag.

1.5 O ran 'proses dethol tenantiaeth', bydd Mirus-Wales yn 'paru' pobl drwy gynnwys tenantiaid presennol (lle bo'n briodol), aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol priodol i geisio sicrhau bod pobl yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae yna gyfnodau prawf lle mae addasrwydd unigolyn yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac ymdrinnir ag unrhyw faterion cyd-fynd yn rhagweithiol.

1.6 O 2018 hyd heddiw, dim ond un digwyddiad a adroddwyd drwy'r Rheolwr, ac aed i'r afael â'r digwyddiad gan Dîm Diogelu Caerffili. Yn dilyn hynny, deliodd y darparwr â'r digwyddiad hwn mewn modd priodol a rhagweithiol. Ni chafwyd unrhyw bryderon eraill gan weithwyr proffesiynol eraill ers hynny.

1.7 Nid yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cynnal ymweliad arolygu ers i Mirus-Wales ailgofrestru ym mis Ionawr 2019, felly nid oedd unrhyw wybodaeth gyfredol ar gael yn rhwydd.

1.8 Yn dibynnu ar ganfyddiadau'r adroddiad, rhoddir camau unioni a datblygiadol i'r darparwr i'w cwblhau. Camau unioni yw'r rhai y mae'n rhaid eu cwblhau (fel y'u rheolir gan ddeddfwriaeth, ac ati), a chamau datblygiadol yw'r rhai yr ystyrir eu bod yn arfer da i'w cwblhau.

2. Argymhellion Blaenorol

2.1 Cadarnhawyd yn flaenorol bod yr holl gamau unioni a datblygiadol a nodwyd o ymweliad â'r Brif Swyddfa ym mis Gorffennaf/Awst 2018 wedi'u cyflawni.

3. Unigolyn Cyfrifol

3.1 Roedd y gwasanaeth wedi ailgofrestru ag AGC ym mis Ionawr 2019 i fodloni'r gofynion cofrestru yn y rheoliadau newydd, sef Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2018.

3.2 Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth yw Mr Chris Paul. Yn ôl y Ddeddf, mae disgwyl y bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'i wasanaethau o leiaf bob chwarter er mwyn cael trosolwg o'u hansawdd a'u perfformiad. Roedd yn amlwg bod adroddiad wedi'i lunio ar gyfer y chwarter blaenorol a'i fod yn cynnwys adborth uniongyrchol gan bobl a gynorthwywyd/aelodau staff, yn ogystal ag unrhyw ddigwyddiadau/cwynion/diogelu, cydymffurfio â hyfforddiant ac unrhyw gamau a nodwyd.

3.3 Darparwyd Datganiad o Ddiben y gwasanaeth, a hysbyswyd y Swyddog Monitro Contractau bod hwn wedi'i adolygu'n ddiweddar iawn. Ar hyn o bryd, nid yw'r ddogfen yn cynnwys dyddiad adolygu/dyddiad adolygu yn y dyfodol.

3.4 Y cynllun wrth gefn, pe bai'r Unigolyn Cyfrifol a'r Rheolwr Cofrestredig yn absennol, fyddai y byddai Rheolwr Ardal o ranbarth arall yn cyflenwi yn absenoldeb y Rheolwr Cofrestredig, a byddai'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn gweithio yn lle'r Unigolyn Cyfrifol.

3.5 Er mwyn i'r gwasanaeth weithredu'n effeithiol, mae angen polisïau a gweithdrefnau gorfodol (mae rhai ohonynt yn cynnwys e.e. Diogelu, Rheoli Heintiau, Meddyginiaeth, Cwynion ac ati). Adolygwyd y rhain, ac roedd yn amlwg eu bod yn gyfredol i raddau helaeth. Roedd y polisïau'n gynhwysfawr, gan gyfeirio at y ddeddfwriaeth ddiweddaraf e.e. Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, y 'Cynnig Rhagweithiol' (Deddf yr Iaith Gymraeg). Ar adeg yr ymweliad, amlygwyd bod angen diweddaru rhywfaint ar y polisi Diogelu o ran terminoleg, a thynnwyd hyn i sylw'r Rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol.

4.0 Staffio

4.1 Ar hyn o bryd, mae 9 aelod o staff yn cael eu cyflogi i weithio yn yr eiddo yn Nelson.

4.2 Mae'r bobl a gynorthwyir yn elwa o dîm staff sefydlog a chyson, gyda dim ond un aelod o staff sydd wedi gadael y tîm yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

4.3 Adolygwyd dwy ffeil staff fel rhan o'r broses fonitro. Archwiliwyd y rhain ac roedd tystiolaeth bod gwybodaeth berthnasol wedi'i chasglu fel rhan o'r broses recriwtio. Roedd y ffeiliau staff yn cynnwys prawf adnabod/ffotograff, ffurflen gais, disgrifiad swydd, dau eirda, contract cyflogaeth wedi'i lofnodi, cofnodion cyfweld (gan gynnwys mecanwaith sgorio a senarios heriol i farnu addasrwydd yr ymgeisydd ar gyfer y rôl).

4.4 Roedd tystiolaeth y gwnaed cais am wybodaeth y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod gan y darparwr system ar gyfer cofnodi hyn.

4.5 Roedd y ddau eirda yn y ffeiliau staff yn cynnwys llwybrau archwilio da yn dangos lle yr aethpwyd o hyd i eirdaon a lle na chafwyd y rhain.

4.6 Mae'r eiddo yn Nelson wedi'i staffio ar sail 24 awr gyda threfniadau cysgu i mewn ac aelodau staff ar ddyletswydd effro yn y nos ar waith.

4.7 Mae trefniant ar alwad yn ei le lle mae uwch staff ar gael i gynnig cyngor/cymorth os bydd argyfwng. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i uwch staff sicrhau eu bod ar gael drwy gydol y diwrnod gwaith a rheoli eu gwyliau blynyddol ac ati yn unol â hynny. Mae trefniant ffurfiol ar alwad ar gyfer amseroedd y penwythnos sy'n dod o dan y Rheolwyr Tîm a'r staff Rhanbarthol/Uwch.

5.0 Canmol a chwyno

5.1 Cynorthwyir pobl i wneud cwynion drwy gyfarfodydd tŷ rheolaidd a gellir mynegi barn drwy ddigwyddiadau 'Yn Well Gyda'n Gilydd' a chyfarfodydd cyfranogi a gynhelir gan Mirus. Cynhelir digwyddiadau 'Yn Well Gyda'n Gilydd' ddwywaith y flwyddyn ac fe'u defnyddir i gael barn ar y gwasanaeth drwy bobl a gynorthwyir ac aelodau o'r teulu. Roedd yn amlwg o adroddiad diweddaraf yr Unigolyn Cyfrifol bod un wedi'i gynnal yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn a bod presenoldeb yn y digwyddiad yn dda iawn.

5.2 Mae gan y darparwr broses gwyno glir sy'n darparu llinellau cyfathrebu clir ac amserlenni y dylid cadw atynt. Adolygwyd y polisi cwynion ym mis Medi 2018 ac ar hyn o bryd mae'n cael ei ailadolygu oherwydd rhai newidiadau gofynnol. Byddai'r Rheolwr Ardal yn gyfrifol am archwilio unrhyw gwynion.

6.0 Adolygiad Ansawdd Gofal

6.1 Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldeb i gasglu adborth mewn perthynas â'r gwasanaeth a'r gofyniad i hyn gael ei wneud yn rheolaidd bob 6 mis, yn unol â rheoliadau AGC. Mae angen i hyn gynnwys coladu/dadansoddi adborth a gafwyd gan yr holl randdeiliaid, materion a gwersi a ddysgwyd o gwynion/materion diogelu, patrymau/tueddiadau a nodwyd drwy ddigwyddiadau arwyddocaol, canlyniadau adroddiadau arolygu/ymweliadau monitro'r Unigolyn Cyfrifol ac archwiliadau.

7.0 Sesiynau sefydlu a hyfforddiant

7.1 Mae cyrsiau hyfforddi'n dal ar gael drwy ystod o ddarparwyr, h.y. Tîm Nyrsio Anableddau Dysgu Cymunedol Caerffili, darparwyr hyfforddiant preifat, hyfforddiant mewnol ac E-ddysgu (ar gyfer cyrsiau fel Iechyd a Diogelwch).

7.2 Gofynnir i ofalyddion newydd gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan sydd wedi'i lunio ar gyfer gweithwyr gofal cartref/byw â chymorth gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae hyn yn cynnwys llawer o feysydd/safonau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr gofal cymdeithasol. Tra bod hyn yn cael ei gwblhau, mae disgwyl i weithwyr cymorth ymgymryd â'u hyfforddiant gorfodol er mwyn bod yn barod ar gyfer y rôl.

7.3 Mae'r math o hyfforddiant gorfodol yn cynnwys e.e. Codi a Chario, Cymorth Cyntaf, Diogelu (lefel 2), Ymwybyddiaeth o Feddyginiaeth ac ati. Ymdrinnir â chanllawiau hylendid bwyd yn y cwrs Iechyd a Diogelwch a gynhelir. Mae hyfforddiant nad yw'n orfodol arall yn cynnwys e.e. Epilepsi a Rhoi Meddyginiaeth yn y Foch, Deall Ymddygiad ac ati, ac fe'u trefnir yn unol ag anghenion y gwasanaeth.

7.4 Mae holl aelodau tîm y staff cyfredol wedi cyflawni Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol neu gymhwyster y Fframwaith Credydau a Chymwysterau mewn Gofal Cymdeithasol. Cytunwyd bod hyn yn gadarnhaol o ran hyfforddiant staff, ond hefyd o ran y gofyniad i staff gofal cartref/gweithwyr cymorth gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn Ebrill 2020. Hysbyswyd y Swyddog Monitro Contractau bod pawb ar wahân i un aelod o staff wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru hyd yma, ond roedd cynlluniau i'r unigolyn hwnnw wneud hyn maes o law.

8.0 Goruchwylio ac Arfarnu

8.1 Mae Mirus-Wales yn cyrchu gwybodaeth oruchwylio ac arfarnu drwy eu System Dysgu Diogelwch electronig sy'n rhoi sbardun pryd mae'r sesiynau hyn i fod i gael eu cynnal. Yn ôl y system, roedd yn amlwg bod staff wedi derbyn goruchwyliaethau bob 3 mis (yn unol â RISCA), a bod arfarniadau blynyddol wedi'u cynnal hefyd.

8.2 Cynhelir sesiynau goruchwylio yn bennaf ar sail un i un er eu bod yn cael eu cynnal fel grŵp yn ôl yr angen.

9.0 Camau Unioni/Datblygiadol

9.1 Camau unioni

9.1.1 Diweddaru'r polisi diogelu i ddiweddaru terminoleg. **Amserlen: O fewn 2 mis.** *(RISCA Rheoliad 6.)*

9.2 Camau datblygiadol

Ni nodwyd unrhyw gamau.

10.0 Casgliad

10.1 Roedd yn amlwg bod yr Unigolyn Cyfrifol yn gwbl ymwybodol o'i gyfrifoldebau i ymweld â, ac adrodd ar, ansawdd a pherfformiad y gwasanaethau yn rheolaidd.

10.2 Mae'n ymddangos bod polisïau/gweithdrefnau gorfodol yn gryf ac yn gyfredol.

10.3 Cynorthwyir pobl gan dîm staff sefydlog sy'n cael eu goruchwylio ac sy'n derbyn hyfforddiant priodol i gyflawni eu swyddi. Mae Mirus-Wales yn deall y gofyniad i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru erbyn Ebrill 2020, ac mae unigolion eisoes wedi gwneud hynny gyda mesurau ar waith i sicrhau bod holl aelodau'r staff yn ymgymryd â hyn ymhell cyn y dyddiad cau.

10.4 Ychydig iawn o bryderon/materion a adroddwyd i Dîm Comisiynu Caerffili ers ymweliad blaenorol â'r Brif Swyddfa yn 2017, sy'n gadarnhaol.

10.5 Hoffai'r Swyddog Monitro Contractau ddiolch i'r Unigolyn Cyfrifol, y Rheolwr Rhanbarthol a'r Rheolwr Tîm am eu hamser a'u croeso yn ystod yr ymweliad monitro.

Awdur: Andrea Crahart
Swydd: Swyddog Monitro Contractau
Dyddiad: Hydref 2019

D.S. Bydd yr adroddiad hwn ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd copïau caled o'r adroddiad hefyd ar gael i ddarpar denantiaid a/neu eu teuluoedd ar gais.